***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 691

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011

**Disgrifiad rhagnodedig o berson cymhwysol**

**4.**—(1) Person sy'n dod o fewn yr Atodlen ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd sy'n dechrau yn ystod y cyfnod grant yw person cymhwysol a ragnodir at ddibenion adran 28 o'r Ddeddf ac eithrio—

(a) person nad oes ganddo hawl i gymorth o dan Reoliadau 2011 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (ch), (d) neu (dd) o'r Rheoliadau hynny; neu

(b) person a grybwyllir ym mharagraff (2), (3), (6) neu (7).

(2) Yn ddarostyngedig i'r eithriadau ym mharagraffau (4), (5), (6) a (7), nid yw person yn berson cymhwysol—

(a) os oes gan y person gymhwyster addysg uwch; a

(b) os yw'r cwrs cymhwysol yn arwain at gymhwyster sy'n gymhwyster cyfwerth neu is.

(3) Nid yw person yn berson cymhwysol—

(a) os yw'r person yn rhoi'r gorau i gwrs ("y cwrs cyntaf") nad yw'n gwrs cymhwysol;

(b) a diystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, os yw'r person yn mynychu ar unwaith gwrs arall sy'n gwrs cymhwysol; ac

(c) os nad oedd y cwrs cyntaf yn gwrs cymhwysol oherwydd rheoliad 3(4).

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw'r cwrs cymhwysol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon;

(b) os nad yw hyd y cwrs yn fwy na dwy flynedd (mynegir hyd cwrs rhan—amser fel hyd y cwrs llawnamser cyfatebol); ac

(c) os nad yw'r person cymhwysol yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig.

(5) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw ran o gwrs sengl—

(a) os yw'r cwrs sengl yn arwain at radd anrhydedd yn cael ei rhoi i'r person cymhwysol gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig cyn y radd derfynol neu gymhwyster cyfatebol; a

(b) os yw'r unig radd anrhydedd sydd gan y person cymhwysol wedi ei derbyn fel rhan o'r cwrs sengl hwnnw.

(6) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw'r cwrs cymhwysol yn radd sylfaen.

(7) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw'r cwrs cymhwysol yn arwain at gymhwyster gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer.

(8) Os yw person, o ganlyniad i ddigwyddiad yn ystod blwyddyn academaidd, yn dod o fewn yr Atodlen yn ystod blwyddyn academaidd, nid yw'r person hwnnw'n berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi neu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol.